

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

---

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddNHAMG](http://www.senedd.cymru/SeneddNHAMG)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddNHAMG@senedd.cymru](mailto:SeneddNHAMG@senedd.cymru)**

Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd**

Mawrth 2021



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddNHAMG](http://www.senedd.cymru/SeneddNHAMG)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mike Hedges AS**  
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Janet Finch Saunders AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Llyr Gruffydd AS**  
Plaid Cymru



**Neil Hamilton AS**  
UKIP Cymru



**Jenny Rathbone AS**  
Llafur Cymru



**Joyce Watson AS**  
Llafur Cymru

---

## Cynnwys

<b>1. Trosolwg</b>	<b>5</b>
Craffu ar bolisi	5
Deddfwriaeth	5
Covid-19 a ffyrdd o weithio	5
Ymgysylltu â phobl Cymru	5
Cyngor arbenigol	6
Cymrodoriaethau academaidd a chynghorydd arbennig	6
Y Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar Newid yn yr Hinsawdd	7
Cydweithio gyda deddfwrfeydd eraill	7
Materion ar gyfer y Chweched Senedd	7
<b>2. Brexit</b>	<b>9</b>
Dull gweithredu'r Pwyllgor	9
Sganio'r gorwel	9
Blaenoriaethu a ffocws	9
Meithrin perthynas	9
Deddfwriaeth	10
Fframweithiau cyffredin y DU	10
Materion ar gyfer y Chweched Senedd	10
<b>3. Amaethyddiaeth a bwyd</b>	<b>12</b>
Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth	12
Polisi amaethyddol yn y dyfodol	13
Polisi bwyd	13
Materion ar gyfer y Chweched Senedd	14
<b>4. Pysgodfeydd</b>	<b>16</b>
Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth	16
Polisi pysgodfeydd yn y dyfodol	16
Problemau allforio sy'n deillio o Brexit	17
Materion ar gyfer y Chweched Senedd	18

---

<b>5.</b>	<b>Newid hinsawdd ac ynni.....</b>	<b>19</b>
	Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth .....	19
	Polisi a chraffu ar newid hinsawdd .....	19
	Tai.....	21
	Tlodi tanwydd.....	22
	Llifogydd .....	24
	Materion ar gyfer y Chweched Senedd .....	24
<b>6.</b>	<b>Adfer natur a bioamrywiaeth .....</b>	<b>26</b>
	Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth .....	26
	Polisi coedwigaeth a choetiroedd .....	27
	Polisiâu morol .....	28
	Llywodraethu amgylcheddol.....	28
	Bioamrywiaeth ac adferiad gwyrdd .....	30
	Polisiâu llygredd plastig.....	30
	Materion ar gyfer y Chweched Senedd .....	31
<b>7.</b>	<b>Iechyd a lles anifeiliaid .....</b>	<b>33</b>
	Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth .....	33
	Rhaglen Llywodraeth Cymru i ddileu TB .....	33
	Defnyddio maglau yng Nghymru.....	34
	Materion ar gyfer y Chweched Senedd .....	35
<b>8.</b>	<b>Cynllunio .....</b>	<b>36</b>
	Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth .....	36
	Y broses o graffu ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.....	36
	Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 .....	36
	Materion ar gyfer y Chweched Senedd .....	37
<b>9.</b>	<b>Gwaith arall .....</b>	<b>38</b>
	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.....	38
	Cyfoeth Naturiol Cymru.....	38
	Penodiadau cyhoeddus.....	38
	Materion ar gyfer y Chweched Senedd .....	38

---

## 1. Trosolwg

### Craffu ar bolisi

**1.** Yn ystod tymor y Senedd hon, cynhaliom 20 ymchwiliad polisi, yn ogystal â sawl sesiwn untro. Caiff y rhain eu rhestru yn y penodau sy'n dilyn yn ôl pwnc. Hefyd, cynhaliom sesiynau craffu cyffredinol gyda Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion yr oedd eu portffolios yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.

### Deddfwriaeth

**2.** Yn ystod tymor y Senedd hon, trafododd y Pwyllgor un Bil ar gyfer Cymru, 14 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a sawl darn o is-ddeddfwriaeth. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor waith craffu statudol ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (gweler Pennod 8).

### Covid-19 a ffyrdd o weithio

**3.** Ers dechrau pandemig y coronafeirws, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar effaith y feirws ar feysydd sydd o fewn ei gylch gwaith. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau craffu misol gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a sesiynau rheolaidd gyda rhanddeiliaid allweddol mewn sectorau y mae'r feirws wedi effeithio arnynt.

**4.** Yn sgil y pandemig Covid-19, mae pwyllgorau'r Senedd wedi bod yn gweithio o bell yn ystod blwyddyn olaf tymor y Senedd. Cred y Pwyllgor fod defnyddio technoleg i hwyluso gwaith pwyllgorau yn esgor ar fanteision, yn enwedig wrth gasglu tystiolaeth gan dystion. Mae'r dull newydd hwn yn golygu bod y Pwyllgor wedi gallu clywed gan dystion o bob rhan o Gymru a thu hwnt, heb y cyfyngiadau arferol o ran amser a theithio. Mae dull sy'n lleihau'r angen i deithio'n bell yn ddefnyddiol, o ystyried yr argyfwng hinsawdd.

### Ymgysylltu â phobl Cymru

**5.** Yn ystod y Bumed Senedd, mae'r Pwyllgor wedi ymdrechu i gynnwys lleisiau unigolion sydd â phrofiadau byw i lywio ei broses graffu.

**6.** Roedd ymchwiliad y Pwyllgor i dai carbon isel yn archwilio'r heriau sylweddol y mae Cymru yn eu hwynebu wrth fodloni eu hymrwymadau newid hinsawdd. Fel rhan o'i waith craffu, casglodd y Pwyllgor safbwyntiau unigolion o bob rhan o Gymru trwy gynnal arolwg a chyfres o gyfweiliadau un i un gyda'r bwriad o gofnodi agwedd y cyhoedd at dai carbon isel.

**7.** Fel rhan o'i waith craffu Cyfnod 1 ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), casglodd y Pwyllgor farn pobl ledled Cymru trwy fforwm trafod ar-lein ac yn ystod sesiynau addysg gydag ysgolion a grwpiau ieuenctid. Hefyd, casglodd brofiadau pobl o dlodi tanwydd o bob rhan o Gymru, yn ystod cyfres o grwpiau ffocws.

**8.** Un anfantais sy'n codi o weithio o bell yw'r diffyg cysylltiad wyneb yn wyneb a sgysiau ar gyrion cyfarfodydd. Yn anochel, bu llai o gyfleoedd hefyd i gwrdd â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn eu hamgylchedd. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn gallu bod yn werthfawr iawn ac roedd yn rhan allweddol o'i ddull gweithredu yn hanner cyntaf tymor y Senedd.

## Cyngor arbenigol

### Cymrodoriaethau academiaidd a chynghorydd arbennig

---

**9.** Defnyddiodd y Pwyllgor gynllun cymrodoriaethau academiaidd y Senedd i fanteisio ar arbenigedd sawl academydd ym meysydd newid yn yr hinsawdd<sup>1</sup>, TB Buchol<sup>2</sup>, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol<sup>3</sup>, a pholisïau ar ôl Brexit, gan gynnwys llywodraethu amgylcheddol<sup>4</sup> ac olynydd i gynllun masnachu allyriadau'r UE<sup>5</sup>.

**10.** Defnyddiodd y Pwyllgor wasanaethau cynghorydd arbenigol, sef Dr Graeme Purves, ar gyfer ei ddau ddarn o waith craffu yn ymwneud â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

---

<sup>1</sup> Fe wnaeth Dr Filippos Proedrou, sef cymrawd academiaidd Materion Rhyngwladol ym Mhrifysgol De Cymru, baratoi gwaith ymchwil ar gyfer y Pwyllgor, sef "Yn mynd i'r afael â'r bwlch yn y polisi hinsawdd yng Nghymru".

<sup>2</sup> Fe wnaeth Dr Gareth Enticott o Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd baratoi ymchwil ar gyfer y Pwyllgor ar "Twbercwlosis Buchol: Dysgu o Ymchwil Gymdeithasol. Brexit, masnachu ar sail risg a llywodraethu."

<sup>3</sup> Fe wnaeth Ludi Simpson, Athro mewn Astudiaethau Poblogaeth ym Mhrifysgol Manceinion baratoi ymchwil ar gyfer y Pwyllgor ynghylch "Amcanestyniadau demograffig a chynllunio: partneriaeth gydweithredol".

<sup>4</sup> Fe wnaeth Dr Victoria Jenkins o Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton baratoi ymchwil ar gyfer y Pwyllgor ynghylch "Persbectif Newydd ar Fframweithiau Cyffredin i'r Deyrnas Unedig: y cyfleoedd ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yng Nghymru yn Gynaliadwy".

<sup>5</sup> Fe wnaeth Joshua Burke o Sefydliad Ymchwil Grantham ar Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd, Ysgol Economeg a Gwyddor Gwleidyddol Llundain, baratoi ymchwil ar gyfer y Pwyllgor ynghylch opsiynau posibl i ddisodli cynllun masnachu allyriadau'r Undeb Ewropeaidd.



## Y Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar Newid yn yr Hinsawdd

---

**11.** Ym mis Hydref 2016, cytunodd y Pwyllgor i sefydlu grŵp i'w gynorthwyo gyda'i waith craffu ar bolisiâu, camau gweithredu a chynnydd ym maes newid yn yr hinsawdd. Cynhaliodd y Grŵp bedwar cyfarfod rhwng mis Chwefror 2017 a mis Chwefror 2018, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau a thrafodaethau ar faterion perthnasol gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Farwnes Brown, Cadeirydd is-bwyllgor y Pwyllgor Addasu i Newid yn yr Hinsawdd. Llywiodd y gwaith hwn adroddiad blynyddol cyntaf y Pwyllgor ar newid yn yr hinsawdd.

### Cydweithio gyda deddfwrfeydd eraill

**12.** Fel rhan o'i waith craffu ar Brexit, cynhaliodd y Pwyllgor sawl cyfarfod gyda phwyllgorau yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Nodir y rhain yn fanylach yn y bennod nesaf.

**13.** Ar 4 Chwefror 2021, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod anffurfiol ar y cyd ag Is-bwyllgor Amgylchedd yr UE Tŷ'r Arglwyddi i drafod y materion sy'n codi o drefniadau masnachu'r DU â'r UE a COP26.

**14.** Ar 15 Mawrth 2021, fe wnaeth y Pwyllgor gymryd rhan mewn cyfarfod ar y cyd â chynrychiolwyr o sawl pwyllgor seneddol o Dŷ'r Cyffredin a'r deddfwrfeydd datganoledig. Diben y digwyddiad oedd ystyried cyfranogiad y DU yn COP26.

### Materion ar gyfer y Chweched Senedd

**Casgliad 1.** Dylai ein Pwyllgor olynol barhau i ddefnyddio technoleg i gynnal cyfarfodydd o bell pan fo hynny'n fanteisiol, yn anad dim oherwydd ei fuddion amgylcheddol.

**Casgliad 2.** Dylai ein Pwyllgor olynol ystyried sut y gellir defnyddio'r cyfleoedd y mae technoleg yn eu cyflwyno i gynyddu amrywiaeth y cyfranogwyr yn ei waith.

**Casgliad 3.** Dylai ein Pwyllgor olynol wneud defnydd llawn o'r arbenigedd a'r cyngor sydd ar gael yng Nghymru a thu hwnt, trwy ddefnyddio Cynghorwyr Arbenigol ac ymchwil academiaidd allanol.

**Casgliad 4.** Dylai ein Pwyllgor olynol fynd ar drywydd cyfleoedd i weithio gyda Phwyllgorau eraill y Senedd, yn enwedig ar faterion trawsbynciol, lle byddai hynny'n cryfhau'r gwaith craffu.

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## Ein gwaith yn ystod y Bumed Senedd



47

ADRODDIAD  
PWYLLGOR



23


YMCHWILIAD

1 BIL  
WEDI'I  
YSTYRIED




316

O YMDDANGOSIADAU  
GAN DYSTION



CYFARFODYDD  
PWYLLGOR



131

14

MEMORANDWM  
CYDSYNIAD  
DEDDFWRIAETHOL  
A DRAFODWYD



## 2. Brexit

O ystyried bod cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys amaethyddiaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd, roedd yn anochel mai Brexit fyddai thema gyffredinol gwaith y Pwyllgor yn ystod tymor y Senedd hon. Yn wir, effeithiodd Brexit ar bron pob maes pwnc a ystyriodd y Pwyllgor.

### Dull gweithredu'r Pwyllgor

**15.** Ym mis Mawrth 2018, cytunodd y Pwyllgor ar ddull gweithredu o ran ystyried materion sy'n codi o ymadawiad y DU â'r UE. Roedd hyn yn cynnwys tair elfen: sganio'r gorwel; blaenoriaethu a ffocws; a meithrin perthynas.

#### Sganio'r gorwel

---

**16.** Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd ynghylch materion yn ymwneud â Brexit. Roedd cael digon o wybodaeth am y datblygiadau diweddaraf wedi galluogi'r Pwyllgor i flaenoriaethu a phenderfynu ar y meysydd yr oedd am ganolbwyntio arnynt.

**17.** Defnyddiodd y Pwyllgor wasanaethau academyddion ynghylch nifer o faterion yn ymwneud â Brexit.

#### Blaenoriaethu a ffocws

---

**18.** Cytunodd y Pwyllgor i sicrhau bod ei flaenraglen waith yn ddigon hyblyg i ymateb i faterion sy'n ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn enwedig deddfwriaeth. O ystyried na fyddai gan y Pwyllgor ddigon o amser nac adnoddau i allu ystyried yr holl faterion yn ymwneud â Brexit, cytunodd i flaenoriaethu deddfwriaeth ar ôl Brexit a fframweithiau arfaethedig ar gyfer y DU, gan mai dyma'r meysydd lle gallai ei fewnbwn gael yr effaith fwyaf.

#### Meithrin perthynas

---

**19.** Cytunodd y Pwyllgor i barhau i ddatblygu perthnasoedd â phwyllgorau cyfatebol mewn deddfwrfeydd eraill i rannu gwybodaeth ac arferion da. Yn ystod y Bumed Senedd, mae'r Pwyllgor wedi cwrdd â chynrychiolwyr o Bwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir a Phwyllgor Economi Gwledig a Chysylltedd Senedd yr Alban; Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin; Is-

bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE Tŷ'r Arglwyddi; ac Is-bwyllgor Amgylchedd yr UE Tŷ'r Arglwyddi.

**20.** Ym mis Mai 2018, fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor ymweld â Senedd y DU i gwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar y pryd. Pwrpas yr ymweliad oedd trafod y trefniadau arfaethedig ar gyfer llywodraethu amgylcheddol ar ôl i'r DU adael yr UE; trefniadau cyllido yn y dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth a mynediad i farchnadoedd tramor ar gyfer cynhyrchwyr bwyd o Brydain.

## Deddfwriaeth

**21.** Penderfynodd y Pwyllgor ganolbwyntio ar y cyfryngau deddfwriaethol a fyddai'n cael eu defnyddio i roi trefniadau newydd ar waith yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE. Yn ymarferol, roedd hyn yn cynnwys craffu ar gynigion mewn tri phrif faes - amaethyddiaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd. Mae rhagor o fanylion am bob un o'r pynciau hyn yn y bennod berthnasol o'r adroddiad hwn.

## Fframweithiau cyffredin y DU

**22.** Penderfynodd y Pwyllgor ganolbwyntio ar fframweithiau cyffredin a fyddai'n angenrheidiol ar ôl i'r DU adael yr UE.<sup>6</sup> Yn 2018, ymgwymerodd y Pwyllgor â gwaith cychwynnol yn y maes hwn i ddatblygu darlun cliriach o'r meysydd polisi y byddai angen fframweithiau deddfwriaethol neu fframweithiau anneddfwriaethol arnynt.

**23.** Roedd oedi wrth ddatblygu'r fframweithiau yn cyfyngu ar allu'r Pwyllgor i graffu'n fanwl ar y mwyafrif. Fodd bynnag, bu'r Pwyllgor yn ystyried y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Cynllunio o ran Sylweddau Peryglus ac yn gwneud gwaith cychwynnol ar Fframwaith Cyffredin Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

## Materion ar gyfer y Chweched Senedd

**Casgliad 5.** Bydd perthynas y DU â'r UE yn parhau i fod yn allweddol yn ystod tymor nesaf y Senedd. Bydd datblygu trefniadau newydd yn mynnu llawer o ffocws Gweinidogion a gweision sifil. Dylai ein Pwyllgor olynol barhau i adeiladu

---

<sup>6</sup> Cytunodd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodi Ewropeaidd) y byddai fframweithiau cyffredin yn cael eu sefydlu pan fyddant yn angenrheidiol er mwyn (ymhlith pethau eraill) galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu. Pan gaiff ei benderfynu bod dull cyffredin yn hanfodol, bydd fframweithiau deddfwriaethol y DU yn cael eu datblygu. Pan fo cyffredinrwydd ond yn ddymunol, gellir sefydlu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth neu drefniadau mwy anffurfiol, fel rhannu gwybodaeth.

perthnasoedd â phwyllgorau seneddol cyfatebol ledled y DU i rannu gwybodaeth a chryfhau'r gwaith craffu ar gamau gweithredu llywodraethau o dan y trefniadau sydd ar waith ar ôl Brexit.

**Casgliad 6.** Dylai ein Pwyllgor olynol barhau i adolygu cytundebau masnach sy'n codi yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Mae bwyd a carbon yn feysydd y bydd angen eu hystyried yn fanwl oherwydd gallant gael effaith sylweddol ar Gymru a pholisïau Llywodraeth Cymru.

### 3. Amaethyddiaeth a bwyd

Treuliodd y Pwyllgor lawer o dymor y Senedd hon yn ystyried goblygiadau Brexit ar bolisi amaethyddiaeth a bwyd yng Nghymru. Roedd adroddiad cyntaf y Pwyllgor yn trafod y pwnc hwn ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, yr un mis ag y cafodd Erthygl 50<sup>7</sup> ei gweithredu gan Brif Weinidog y DU ar y pryd.

#### Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth

- Ymchwiliad i ddyfodol rheoli tir yng Nghymru (Mawrth 2017)
- Ymchwiliad i Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd (Mai 2018)
- Risgiau a chyfleoedd dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2018)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU (Ionawr 2019)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth (Mehefin 2019)
- Ymchwiliad i Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Bwyd: brandio a phrosesu (Mehefin 2019)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) (Ionawr 2020)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU (Mai 2020)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth (Gorffennaf 2020)

---

<sup>7</sup> Erthygl 50 yw'r mecanwaith sydd wedi'i gynnwys yng nghytuniad Lisbon i aelod-wladwriaeth adael yr Undeb Ewropeaidd ac mae'n nodi'r camau y mae angen i wlad eu cymryd i dynnu'n ôl o'i rhwymedigaethau yn y cytuniad.

## Polisi amaethyddol yn y dyfodol

---

- 24.** Am dros 40 mlynedd, roedd ffermwyr wedi gweithredu o fewn gwahanol iteriadau o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Yn y cyfnod yn syth ar ôl Brexit, byddai angen deddfwriaeth er mwyn galluogi cymorth ariannol i barhau i gael ei ddarparu i'r sector o dan gynlluniau'r Polisi presennol. Heb ddeddfwriaeth, ni allai cymorth ariannol barhau y tu hwnt i 2020. Hefyd, byddai angen deddfwriaeth i danategu unrhyw bolisi amaethyddol newydd ar gyfer Cymru, gan gynnwys unrhyw system newydd o ddarparu cymorth ariannol.
- 25.** Penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'n briodol defnyddio Bil Amaethyddiaeth arfaethedig Llywodraeth y DU fel cyfrwng deddfwriaethol i weithredu'r newidiadau hyn. Byddai'n ceisio cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar yr adeg briodol. Credai'r Pwyllgor y dylid blaenoriaethu sicrhau parhad ar gyfer y sector yn y cyfnod yn syth ar ôl Brexit ac, o'r herwydd, cytunodd fod achos dros ddefnyddio Bil y DU i ddeddfu at y diben cul hwn.
- 26.** Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pryderu bod y darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y DU yn ymestyn y tu hwnt i alluogi parhad y polisi cyfredol yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl Brexit. Yn lle hynny, fe wnaethant ddarparu pwerau gweithredol helaeth a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno polisi amaethyddol newydd yng Nghymru gyda chyfranogiad a gwaith craffu cyfyngedig gan y Senedd. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad mai'r ffordd fwyaf priodol o ddeddfu ar bwnc mor arwyddocaol â dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru yn y tymor hir byddai drwy Fil Senedd. Cafodd y darpariaethau hyn ym Mil y DU eu dileu wedi hynny.

## Polisi bwyd

---

- 27.** Cyhoeddodd y Pwyllgor ddau adroddiad yn ymwneud â pholisi bwyd yn ystod tymor y Senedd hon o dan y faner "Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru".
- 28.** Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi bwyd yn ystod tymor y Senedd hon wedi'i nodi yn 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'.
- 29.** Yn ei adroddiad cyntaf, sef Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd (Mai 2018), daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen gweledigaeth strategol ar gyfer y sector bwyd yng Nghymru sy'n gwneud cysylltiadau rhwng meysydd polisi gwahanol, fel iechyd, llesiant a chynaliadwyedd, ynghyd â thwf economaidd. Byddai hyn yn arbennig o bwysig yn sgil Brexit.

**30.** Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad cyntaf, roedd y ffigurau swyddogol diweddaraf yn amcangyfrif bod gwariant caffael bwyd a diod y sector cyhoeddus yn £74.4 miliwn y flwyddyn yng Nghymru. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid meddwl am y cyllid cyhoeddus hwn, sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu bwyd yn ysgolion ac ysbytai Cymru, fel buddsoddiad mewn iechyd a lles pobl Cymru. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai caffael cyhoeddus mewn perthynas â bwyd fod yn rhan ganolog o strategaeth fwyd Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit.

**31.** Yn fuan ar ôl cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, cyhoeddodd y Gweinidog fod y Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod yn dechrau gweithio ar Gynllun Gweithredu newydd "er mwyn rhoi cyfeiriad strategol i'r diwydiant ar ôl 2020"<sup>8</sup>. Flwyddyn yn ddiweddarach, fe wnaeth Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod ymgynghori ar gynigion ar y cyd ar gyfer "cynllun strategol i ddatblygu sector bwyd a diod Cymru ymhellach ar gyfer y cyfnod 2020-2026"<sup>9</sup>. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun terfynol wedi ei gyhoeddi eto.

**32.** Mewn diweddariad i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2021, dywedodd y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo i'r uchelgeisiau tymor hir a nodwyd yn y cynllun strategol. Dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r cynllun pan fydd yr amser yn iawn<sup>10</sup>.

## Materion ar gyfer y Chweched Senedd

**Casgliad 7.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) disgwylidig ym mis Rhagfyr 2020. Penderfynodd y Pwyllgor hwn y byddai'n well pe bai Pwyllgor olynol yn craffu ar gynigion y Papur Gwyn a'r Bil dilynol. Mae gwaith y Pwyllgor wedi amlygu maint yr her i Lywodraeth Cymru os yw'n mynd i ddatblygu a gweithredu cynllun yn seiliedig ar ei hamserlen. Bydd angen modelu, asesu effaith a sefydlu cynlluniau peilot, yn gynnar yn y Senedd nesaf a bydd hyn o ddi-ddordeb i'n holynydd.

**Casgliad 8.** Bydd angen i'n Pwyllgor olynol ystyried yr iteriad nesaf o bolisi bwyd Llywodraeth Cymru. Rydym yn credu'n gryf bod angen strategaeth fwyd gyfannol, sy'n ystyried llesiant pobl Cymru a phryderon amgylcheddol ochr yn

---

<sup>8</sup> Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd, Awst 2018

<sup>9</sup> Papur ymgynghori Llywodraeth Cymru, Ein huchelgais i ddatblygu'r sector bwyd a diod yng Nghymru ymhellach, Gorffennaf 2019

<sup>10</sup> Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (Saesneg yn unig), dyddiedig 29 Ionawr 2021



ochr â manteision economaidd. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried effaith pandemig Covid-19 a Brexit ar y maes polisi hwn.

**Casgliad 9.** Dylai ein Pwyllgor olynol ystyried sut caiff garddwriaeth ei chynnwys mewn polisi bwyd yn y dyfodol, a dylai ystyried polisiau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â garddwriaeth yn fwy eang.

**Casgliad 10.** Fe ddaethom i'r casgliad yn ein hadroddiad ar gaffael bwyd bod y graddau y mae rheoliadau'r UE wedi cyfyngu ar arferion caffael wedi cael eu gorliwio dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol ystyried y dull o gaffael bwyd yng Nghymru i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â strategaeth fwyd Llywodraeth Cymru. Hefyd, efallai yr hoffai ystyried sut y gall dull Llywodraeth Cymru wneud y gorau o'r modd y caiff cyllid cyhoeddus ei wario er mwyn cefnogi cynhyrchwyr a chwmnïau yng Nghymru.

## 4. Pysgodfeydd

Bydd ymadawriad y DU â'r UE yn effeithio'n sylfaenol ar bolisi pysgodfeydd y dyfodol. Yn ystod tymor y Senedd hon, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar geisio dylanwadu ar y syniadau sy'n dod i'r amlwg yn y maes polisi hwn.

### Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth

- Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru (Hydref 2018)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU (Chwefror 2019)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21 (Mai 2020)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21 (Medi 2020)

### Polisi pysgodfeydd yn y dyfodol

**33.** Am ddegawdau, roedd polisi pysgodfeydd yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan gytundebau rhyngwladol, yn fwyaf nodedig, y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad cyntaf ar bysgodfeydd ar ôl Brexit ym mis Hydref 2018. Cynhaliodd y Pwyllgor weithdy i randdeiliaid yn Aberdaugleddau er mwyn llywio'r gwaith cychwynnol hwn. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad, er mwyn sicrhau bod polisiau yn y dyfodol yn gallu bodloni'r heriau sy'n deillio o Brexit, mae angen i dair elfen graidd fod ar waith.

**34.** Yn gyntaf, mae angen fframwaith rheoleiddio ar gyfer y DU, i ddisodli cytundebau cyffredol yr UE. Mae angen i hyn gael ei danategu gan berthynas newydd rhwng cenhedloedd y DU, i ystyried materion o ddiddordeb cyffredin. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau rheolaeth fewnol deg ac effeithiol yn y DU ar faterion pysgodfeydd, megis cyfran cwota. Yn ail, mae angen i'r DU feithrin perthynas newydd gyda'r UE a gwledydd eraill. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw sector pysgodfeydd Cymru yn colli mynediad at farchnadoedd a bod ganddi fynediad priodol at ddyfroedd. Yn olaf, mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth uchelgeisiol gyda ffocws ar gyfer cyfeiriad pysgodfeydd yng Nghymru yn y dyfodol.

**35.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar bolisiau morol a physgodfeydd ar ôl Brexit ('Brexit a'n Moroedd') rhwng mis Mai a mis Awst 2019.

**36.** Yn ystod tymor y Senedd hon, trafododd y Pwyllgor Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â dau Fil Pysgodfeydd y DU. Prif bwrpas Biliau'r DU (a oedd yn weddol debyg) oedd sefydlu fframwaith ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn y DU ar ôl iddi adael y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Dywedodd y Gweinidog fod y pwerau a gymerir ym Miliâu'r DU yn "drosiannol" a'i bod yn "llwyr fwriadu" cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru cyn diwedd y Bumed Senedd. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt ac wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn y Chweched Senedd.

#### Problemau allforio sy'n deillio o Brexit

---

**37.** Ers diwedd cyfnod pontio Brexit, mae busnesau bwyd môr Cymru wedi nodi bod allforion yn cael eu gohirio oherwydd rheolau ffiniau newydd, gan arwain at brotestiadau gan ddiwydiant ehangach y DU. Ers 1 Ionawr 2021, mae pysgod cregyn a elwir yn folysgiaid dwygragenog byw wedi'u cynaeafu'n wyllt, sy'n cael eu dal yn y DU ond nad ydynt yn barod i'w bwyta gan bobl wedi'u gwahardd rhag mynd i mewn i'r UE.

**38.** Ar 19 Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gronfa gymorth gwerth £23 miliwn ar gyfer busnesau pysgota sy'n allforio i'r UE, i'w gweinyddu gan y Sefydliad Rheoli Morol ar draws y DU ar ran Defra. Dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ar feini prawf cymhwysedd y gronfa gymorth.

**39.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, dywedodd y Gweinidog nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gweithio ar yr un rhan o'r cynllun allforwyr hwnnw:

"We hadn't seen the text. We just knew nothing about that scheme. So, you must remember, in all this, fisheries is wholly devolved and so any funding that's coming in any scheme should be for—. I should get my share and I can decide how we support our fishers. I think the fishers need support, the aqua culture sector needs support, the processors need support as well as the exporters. So, the scheme that DEFRA brought forward was only for exporters and I think that's wrong."<sup>11</sup>

**40.** Ar 21 Chwefror 2021, cyhoeddodd Defra ei bod wedi gwrando ar bryderon gan fusnesau pysgota ac ehangu'r meini prawf cymhwysedd i dargedu busnesau dal a dyframaethu pysgod cregyn. Yn dilyn hyn, ymrwymodd Prif Weinidog y DU i

---

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 141.4 Chwefror 2021

gronfa gwerth £100 miliwn i helpu i foderneiddio fflydoedd pysgota, y diwydiant prosesu pysgod, ac i adnewyddu diwydiant pysgota'r DU.

**41.** Ar 11 Mawrth 2021, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig gronfa cadernid gwerth £2.3 miliwn ar gyfer pysgodfeydd, dyframaeth a chymunedau arfordirol. Roedd y cyllid hwn yn ychwanegol at Gronfa Ymateb Bwyd Môr Llywodraeth y DU, sydd, yn ôl y Gweinidog, dim ond yn darparu cefnogaeth rannol i fusnesau pysgodfeydd a dyframaethu Cymru.

## Materion ar gyfer y Chweched Senedd

**Casgliad 11.** O ystyried yr arwyddion cynnar bod cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE wedi cael (a bydd yn parhau i gael) effaith ddifrifol ar allforio pysgod a chynhyrchion dyframaeth Cymru, credwn y dylai ein Pwyllgor olynol adolygu hyn yn gynnar yn nhymor nesaf y Senedd.

**Casgliad 12.** Addawyd cynnydd yn y cwota i bysgotwyr Cymru (a'r DU) o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r Pwyllgor hwn wedi dadlau na fydd cynnydd teg i Gymru yn digwydd oni bai bod dyraniad cwota o dan Concordat Pysgodfeydd y DU 2012 yn cael ei ddiwygio. Dylai ein Pwyllgor olynol barhau i bwysu am y diwygiadau hyn.

**Casgliad 13.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd Bil Pysgodfeydd Cymru yn cael ei gyflwyno yn nhymor nesaf y Senedd, ac rydym yn rhagweld y bydd ein Pwyllgor olynol yn craffu ar y Bil. Yn y cyfamser, bydd y fframwaith cyffredin ar gyfer pysgodfeydd a nodir ym Mil Pysgodfeydd y DU 2020 yn datblygu. Bydd angen cyhoeddi'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, y darperir ar ei gyfer ym Mil Pysgodfeydd y DU, cyn mis Tachwedd 2022. Credwn ei bod yn werth parhau i adolygu'r fframwaith cyffredin deddfwriaethol a darpariaethau cysylltiedig.

**Casgliad 14.** Credwn y dylai Llywodraeth nesaf Cymru gyflwyno strategaeth uchelgeisiol ar gyfer pysgodfeydd a dyframaeth, sy'n cyd-fynd â'r strategaeth fwyd gyffredinol. Dylai ein Pwyllgor olynol ystyried a ddylid cynnwys strategaeth o'r fath fel gofyniad mewn Bil Pysgodfeydd ar gyfer Cymru.

## 5. Newid hinsawdd ac ynni

### Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth

- Adroddiad Blynyddol ar Newid Hinsawdd 2018: Cynnydd Llywodraeth Cymru ar liniaru newid hinsawdd (Mai 2018)
- Ymchwiliad i dai carbon isel (Awst 2018)
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018 (Tachwedd 2018)
- Adroddiad blynyddol ar gynnydd Llywodraeth Cymru ar newid hinsawdd 2019-20 (Rhagfyr 2019)
- Ymchwiliad i Dlodi Tanwydd yng Nghymru (Mawrth 2020)
- Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Fframwaith Cyffredin (Medi 2020)
- Ymchwiliad i Lifogydd yng Nghymru (Rhagfyr 2020)
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 (Mawrth 2021)

### Polisi a chraffu ar newid hinsawdd

---

**42.** Ar ddechrau'r Bumed Senedd, roedd newid yn yr hinsawdd eisoes yn codi'n gyflym yn yr agenda wleidyddol, yn fyd-eang ac yn genedlaethol. Roedd momentwm cynyddol ac ymrwymiad rhyngwladol tuag at ddatgarboneiddio, a ddangoswyd trwy fabwysiadu Cytundeb Paris ym mis Rhagfyr 2015. Yng Nghymru, sefydlwyd fframwaith statudol newydd ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ('Deddf 2016'). Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno targedau statudol i leihau allyriadau a chyllidebu carbon. Ym mis Mai 2019, Llywodraeth Cymru oedd un o'r cenhedloedd cyntaf yn y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd.

**43.** Gyda hyn yn gefndir i'r cyfan, penderfynodd y Pwyllgor y byddai newid yn yr hinsawdd yn un o'i feysydd blaenoriaeth. Ym mis Rhagfyr 2016, cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull o graffu ym maes newid yn yr hinsawdd, a oedd yn cynnwys:

- sesiynau craffu blynyddol gyda Llywodraeth Cymru i fonitro'r cynnydd o ran lliniaru newid hinsawdd;
- craffu ad hoc ar bolisiau sector-benodol sy'n cyfrannu at yr agenda datgarboneiddio; a

- chraffu ar ôl deddfu yn unol â'r cerrig milltir allweddol o ran gweithredu Rhan 2 o Ddeddf 2016.

**44.** I gefnogi gwaith cynnar y Pwyllgor ar newid hinsawdd, sefydlodd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar Newid yn yr Hinsawdd. Hefyd, datblygodd y Pwyllgor berthynas waith gadarnhaol gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, cynghorydd annibynnol y DU ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, y dylai ein Pwyllgor olynol geisio parhau.

**45.** Yn ystod tymor y Senedd hon, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- monitro'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth osod targedau a chyllidebau carbon newydd, a datblygu cynllun cyflawni carbon isel cyntaf Cymru;
- craffu ar reoliadau newid yn yr hinsawdd;
- craffu ar y graddau y mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn ariannu'n ddigonol datgarboneiddio, sy'n fater traws-bortffolio; ac
- adolygu'r cynnydd tuag at dargedau gan ddefnyddio adroddiadau cynnydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd fel sail i'r gwaith hwn.

**46.** Mae gwaith y Pwyllgor wedi tynnu sylw at sawl gwendid yn y fframwaith statudol ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Yn benodol:

- nid oes llawer o gyfle i graffu ar reoliadau newid yn yr hinsawdd;
- nid oes gweithdrefn graffu benodol gan y Senedd ar gyfer cynlluniau cyflawni carbon isel; ac
- nid oes digon o ofynion adrodd mewn perthynas â chynnydd tuag at dargedau, cyllidebau carbon a gweithredu cynlluniau cyflawni carbon isel.

**47.** Mae'r Pwyllgor wedi ceisio mynd i'r afael â'r uchod wrth wneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, er enghraifft, drwy geisio ymrwymiad i ymgynghori ar reoliadau drafft a chynlluniau cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn anfodlon gwneud hyn, gan ddweud bod ei dull yn bodloni'r gofynion a nodir yn Rhan 2 Deddf 2016.

**48.** Yn ei adroddiad diweddar ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd 2021, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen adolygiad o'r fframwaith statudol er mwyn

cyflwyno gweithdrefnau craffu mwy trylwyr, gwella tryloywder a chryfhau trefniadau atebolrwydd.

## Tai

---

**49.** Ni all Cymru gyflawni ei thargedau carbon heb bolisi cryf mewn sectorau allweddol, gan gynnwys tai. Mae sicrhau bod stoc dai bresennol a newydd Cymru yn effeithlon o ran ynni yn hanfodol nid yn unig i leihau allyriadau ond i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, sy'n parhau i fod ar lefel annerbyniol o uchel.

**50.** Ym mis Medi 2017, dechreuodd y Pwyllgor ei ymchwiliad i dai carbon isel. Argymhelliad cyffredinol y Pwyllgor oedd i Lywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer tai carbon isel, a fyddai'n darparu'r canlynol:

- ôl-osod yr holl dai sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru i safonau di-garbon ar waith;
- adeiladu pob tŷ newydd yng Nghymru i safonau di-garbon ar waith;
- system gynllunio ac adeiladu ategol gydag effeithlonrwydd ynni a charbon isel wrth eu gwraidd, a chyda chefnogaeth cyfundrefnau arolygu annibynnol, trylwyr;
- cymhellion ariannol i annog prynwyr a pherchnogion i brynu tai carbon isel a buddsoddi mewn mesurau ôl-osod;
- ymyriadau cyllido sy'n gwneud y mwyaf o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn tai carbon isel; a
- gweithlu wedi'i hyfforddi'n llawn, yn barod i adeiladu a gwella cartrefi gan ddefnyddio'r technolegau diweddaraf.<sup>12</sup>

**51.** Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod eisoes yn datblygu "rhaglen newydd o gamau a fydd yn datgarboneiddio tai yng Nghymru 80 y cant erbyn 2050". Byddai'r rhaglen yn cael ei llywio gan waith y Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, a oedd i fod i gael ei adrodd yn haf 2020. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor: "Ymdrinnir â'r her o dai newydd [carbon isel] drwy'r Rheoliadau Adeiladu", a oedd wrthi'n cael eu hadolygu.

---

<sup>12</sup> Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Tai Carbon Isel: yr her, Awst 2018

**52.** Ers adroddiad y Pwyllgor, bu nifer o ddatblygiadau yn y maes polisi hwn. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [chynllun cyflawni carbon isel](#) cyntaf, sy'n cynnwys polisiâu a chynigion ar gyfer lleihau allyriadau mewn adeiladau a thai preswyl. Ym mis Gorffennaf 2019, [cyhoeddodd y Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru ei adroddiad](#), a oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion amrywiol. Yn ei adroddiad, daeth y Grŵp i'r casgliad a ganlyn:

“Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion anodd ynghylch datgarboneiddio cartrefi, gan ddechrau'n syth gyda rhaglen 10 mlynedd. Mae angen cael targedau uchelgeisiol sy'n gofyn llawer er mwyn sicrhau bod cysondeb ar draws deiliadaethau ac i sefydlu a normaleiddio safon ar gyfer 2030-50.”

**53.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y Grŵp mewn egwyddor ond dywedodd bod angen gwneud rhagor o waith i asesu'r goblygiadau o ran costau.

**54.** Yn niweddariad y Gweinidog ym mis Ionawr 2021, dywedodd bod cryn dipyn o weithgarwch yn digwydd ar dai carbon isel er mwyn bodloni'r materion allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys strategaeth newydd ar gyfer tloidi tanwydd; map ffordd sy'n nodi'r llinell amser a'r cerrig milltir wrth drosglwyddo o ddulliau adeiladu traddodiadol i adeiladu cartrefi fforddiadwy carbon sero-net; a newidiadau arfaethedig i Ran L o'r rheoliadau adeiladu i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi newydd.<sup>13</sup>

**55.** Yn ei [adroddiad cynnydd](#) ym mis Rhagfyr 2020 ar leihau allyriadau yng Nghymru, nododd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, er gwaethaf cynnydd polisi mewn sawl maes, nad oes strategaeth gydlynol, hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd gwres ac ynni yng nghartrefi ac adeiladau eraill Cymru. Mae'n nodi effeithlonrwydd adeiladau a gwres fel sector i'w flaenoriaethu wrth symud ymlaen.

### Tloidi tanwydd

---

**56.** Roedd gan Lywodraeth Cymru darged statudol i ddileu tloidi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018, ond methodd â'i gyrraedd. Yn ôl [amcangyfrifon 2018](#), roedd 155,000 o aelwydydd yng Nghymru, sy'n cyfateb i 12 y cant o'r holl gartrefi, yn dal i fyw mewn tloidi tanwydd. Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i archwilio'r rhesymau dros hyn, ac i ddylanwadu ar strategaeth nesaf Llywodraeth Cymru ar gyfer tloidi tanwydd.

---

<sup>13</sup> [Cohebiaeth gan Weiniidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 29 Ionawr 2021](#)



- 57.** Yn ei adroddiad, nododd y Pwyllgor wersi i'w dysgu o Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010 a galwodd am strategaeth newydd gynhwysfawr sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol eraill, gan gynnwys datgarboneiddio stoc dai Cymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 21 o argymhellion. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 19 o'r argymhellion yn llawn a dau mewn egwyddor.<sup>14</sup>
- 58.** Galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau tlodi tanwydd statudol newydd, gan gynnwys targedau dros dro, sy'n heriol ac yn realistig. Galwodd hefyd am sefydlu fframwaith monitro cadarn i oruchwylio'r cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth newydd a'r targedau. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r fframwaith gynnwys: cyhoeddi amcangyfrifon tlodi tanwydd blynyddol; Bwrdd Cynghori ar Dlodi Tanwydd; ac ymrwymiad i Lywodraeth Cymru adrodd yn rheolaidd ar y cynnydd tuag at ei thargedau.
- 59.** Cododd y Pwyllgor bryder ynghylch na allai cynlluniau Nyth ac Arbed gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd o fewn amserlen dderbyniol. Gwnaeth gyfres o argymhellion i wella'r cynlluniau, gan gynnwys newidiadau i feini prawf cymhwysedd Nest a thargedau gwell mewn perthynas ag Arbed.
- 60.** Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **gynllun tlodi tanwydd** newydd ('y Cynllun') yn hytrach na strategaeth. Mae'r Cynllun yn cynnwys 10 cam gweithredu tymor byr i'w cyflawni rhwng 2021 a 2023. Mae'n rhoi effaith i lawer o argymhellion y pwyllgor, naill ai yn llawn neu'n rhannol.
- 61.** Mae'r Cynllun yn cynnwys targedau tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2035<sup>15</sup>. Mae hefyd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd cyn diwedd 2021.
- 62.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu camau gweithredu'r Cynllun fel rhan o'i hadolygiad ac adroddiad dwyflynyddol ar dlodi tanwydd. Bydd yr adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal yn 2023.

---

<sup>14</sup> Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar dlodi tanwydd yng Nghymru

<sup>15</sup> Y targed tlodi tanwydd newydd yw, erbyn 2035: amcangyfrifir na fydd unrhyw aelwyd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol neu barhaus cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol; amcangyfrifir na fydd mwy na 5 y cant o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd ar unrhyw adeg cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol; a bydd nifer yr aelwydydd sydd "mewn perygl" o syrthio i dlodi tanwydd wedi mwy na haneru, yn seiliedig ar amcangyfrifon 2018.

## Llifogydd

---

**63.** Ym mis Chwefror 2020, tarwyd Cymru gan y llifogydd gwaethaf ers dros 40 mlynedd, a gafodd effaith ddinistriol a hirhoedlog ar gymunedau. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i archwilio ymateb Llywodraeth Cymru i'r llifogydd.<sup>16</sup> Mae adroddiad y Pwyllgor, **Llifogydd yng Nghymru** (Rhagfyr 2020), yn rhoi cipolwg ar yr ymateb ac yn tynnu sylw at feysydd posibl i'w gwella. Mae hefyd yn sôn am faterion ehangach sy'n ymwneud â rheoli risg llifogydd, gan gynnwys lefelau buddsoddi.

**64.** Yn ei adroddiad, tynnodd y Pwyllgor sylw at fgygythiad parhaus llifogydd i gymunedau ledled Cymru. Daeth i'r casgliad bod angen gwneud gwaith mwy sylweddol i archwilio pa mor effeithiol yw Strategaeth Genedlaethol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ('y Strategaeth Genedlaethol').

## Materion ar gyfer y Chweched Senedd

**Casgliad 16.** Mae'r 2020au yn ddegawd hanfodol yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Er mwyn i Cymru gyflawni sero-net erbyn 2050, rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau beiddgar a phendant i sicrhau toriadau sylweddol mewn allyriadau ar draws pob sector o economi Cymru. Credwn y dylai ein Pwyllgor olynol graffu ar weithredu ar yr hinsawdd ar draws y Llywodraeth a monitro'r cynnydd tuag at y targedau statudol newydd, mwy uchelgeisiol, a thargedau sector-benodol. Dylai ganfod ffyrdd o ymgysylltu â phwyllgorau eraill y Senedd o ran y gwaith hwn. Efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol ystyried y ffordd orau o gydbwyso ei waith craffu ar newid yn yr hinsawdd â'i waith craffu ehangach ar bolisiâu a deddfwriaeth.

**Casgliad 17.** Mae'r Pwyllgor wedi ei gwneud yn glir i Lywodraeth Cymru bod yn rhaid caniatáu i'r Pwyllgor olynol drafod drafft o'r cynllun cyflawni carbon isel cyn y caiff ei gwblhau ym mis Tachwedd 2021. O ystyried yr amserlenni dan sylw, efallai y bydd ein Pwyllgor olynol yn dymuno mynd ar drywydd y mater hwn gyda Llywodraeth newydd Cymru ar y cyfle cyntaf posibl, a blaenoriaethu gwaith ar ddrafft y cynllun cyflawni.

**Casgliad 18.** Efallai y bydd ein Pwyllgor olynol yn dymuno mynd ar drywydd y potensial ar gyfer adolygu Rhan 2 o Ddeddf 2016 gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno gweithdrefnau craffu mwy trylwyr, gwella tryloywder a chryfhau

---

<sup>16</sup> Roedd ymchwiliad y Pwyllgor i llifogydd mis Chwefror 2020 wedi'i drefnu i ddechrau ym mis Mawrth 2020. Cafodd yr ymchwiliad ei ohirio tan dymor yr hydref yn dilyn atal Busnes y Senedd dros dro oherwydd pandemig y coronafeirws (Covid-19).

trefniadau atebolrwydd. Fel man cychwyn, gallai'r adolygiad ystyried a ellir dysgu gwersi gan ddeddfwrfeydd eraill, yn enwedig Senedd yr Alban sydd wedi newid ei deddfwriaeth gymharol yn ddiweddar. Dylid cynnal unrhyw adolygiad o'r fath fel mater o frys.

**Casgliad 19.** Mae'r DU yn cynnal y 26ain Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP 26) yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Pwyllgor hwn wedi cymryd rhan mewn sawl trafodaeth ynghylch sut y gellir defnyddio'r digwyddiad i gyflymu gweithredu ar Newid Hinsawdd a'r rôl y gall Cymru ei chwarae yn y gynhadledd. Efallai y bydd ein Pwyllgor olynol yn dymuno ystyried sut y gall gyfrannu at COP26.

**Casgliad 20.** Mae tai o ansawdd da yn faes polisi a all, o'i ddarparu'n effeithiol, sicrhau buddion ar draws sawl maes polisi arall gan gynnwys llesiant, datgarboneiddio a lleihau tlodi. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu dadansoddiad annibynnol yn y maes hwn, sydd wedi gwneud argymhellion uchelgeisiol mewn meysydd fel ôl-osod tai. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r uchelgais hwnnw eto. Efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol ystyried hyn yn gynnar yn nhymor nesaf y Senedd.

**Casgliad 21.** Efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol ystyried craffu ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth gyflawni camau gweithredu'r cynllun tlodi tanwydd a thuag at y targedau tlodi tanwydd newydd.

**Casgliad 22.** Efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol ystyried archwilio pa mor effeithiol yw adroddiad newydd Llywodraeth Cymru, sef Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wrth leihau'r risg llifogydd mewn cymunedau. Mae'n ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru adrodd ar gymhwyso'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn 2022. Efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol ystyried hyn wrth gynllunio ei raglen waith yn y dyfodol.

## 6. Adfer natur a bioamrywiaeth

Ochr yn ochr â'r argyfwng hinsawdd, mae'r Pwyllgor o'r farn mai un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd yw dirywiad bioamrywiaeth. Mae atal a gwrthdroi'r dirywiad hwnnw wedi bod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor.

### Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth

- Sesiwn untro ar yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) (Hydref 2016)
- Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisiau coetiroedd (Gorffennaf 2017)
- Y Llanw'n Troi? Ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (Awst 2017)
- Adborth ar Gynllun Morol Cenedlaethol drafft Llywodraeth Cymru (Ebrill 2018)
- Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit (Mehefin 2018)
- Fframweithiau cyffredin ar gyfer yr amgylchedd ar ôl Brexit (Gorffennaf 2018)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir (Ebrill 2019)
- Ymchwiliad i bolisiau a chynigion sy'n ymwneud â llygredd plastig a gwastraff pecynnu (Mehefin 2019)
- Ymchwiliad dilynol i egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit (Hydref 2019)
- Ymchwiliad i Gynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru: adfer bioamrywiaeth (Hydref 2019)
- Ymchwiliad dilynol i gynnydd Llywodraeth Cymru o ran rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (Tachwedd 2019)

- Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU (Gorffennaf 2020 a Chwefror 2021)
- Sesiwn untro ynghylch bioamrywiaeth ac ail-wylltio yng Nghymru (Tachwedd 2020)

## Polisi coedwigaeth a choetiroedd

---

**65.** Ar ddechrau 2017, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i ystyried y diffyg cynnydd o ran y modd y mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni'r strategaeth ar gyfer coetiroedd a choed 50-mlynedd ar y pryd, sef Strategaeth Coetiroedd i Gymru (2009). Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch y ffaith mai dim ond un rhan o ddeg o'i tharged o 35,000 hectar y mae Cymru wedi llwyddo i'w blannu ers lansio'r strategaeth yn 2010.

**66.** Argymhellodd y Pwyllgor y dylid gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r diffyg hwn, gan ddechrau gydag adnewyddu'r strategaeth Coetiroedd i Gymru. Roedd hyn i'w ddilyn gan gamau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag cynyddu'r gwaith plannu, gan gynnwys trwy archwilio'r potensial i fabwysiadu rhagdybiaeth o gymeradwyo ceisiadau mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi ar y Map Cyfleoedd Coetir fel rhai sy'n addas iawn ar gyfer coetiroedd.<sup>17</sup>

**67.** Mewn diweddariad ym mis Ionawr 2021, fe wnaeth y Gweinidog gydnabod y bydd angen creu coetir ar raddfa fwy nag unrhyw adeg yn ystod y 50 mlynedd diwethaf er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng newid yn yr hinsawdd. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella'r broses ar gyfer cyllido a chymeradwyo cynlluniau coetir newydd, gan gynnwys ymestyn y cyfnod a ganiateir i wneud y gwaith. Esboniodd y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn nyluniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd arfaethedig.

**68.** Yn y diweddariad hwnnw, cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Coedwig Genedlaethol. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y gwaith wedi cychwyn ac y bydd y Goedwig Genedlaethol, ymhen amser, "yn creu rhwydwaith ecolegol cysylltiedig trwy Gymru, gan esgor ar fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol." Esboniodd y byddai rhannau pellach o'r Goedwig Genedlaethol a dull tymor hir o gyflawni'r Goedwig yn cael eu datblygu yn ystod 2021.<sup>18</sup>

---

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Heb gyrraedd gwreiddyn y mater uchelgais newydd ar gyfer polisiau coetiroedd, Gorffennaf 2017.

<sup>18</sup> Cohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 29 Ionawr 2021

---

## Polisiâu morol

---

**69.** Cynhaliodd Pwyllgor ddau ymchwiliad i reolaeth Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPA). Roedd yr ymchwiliad cyntaf yn awyddus i nodi cyfleoedd i gynyddu manteision Ardaloedd Morol Gwarchoddedig i'r eithaf, ac roedd yn ystyried goblygiadau Brexit. Fe wnaeth yr adroddiad 'Y Llanw'n Troi?' argymhellion allweddol y dylai Lywodraeth Cymru ddarparu'r flaenoriaeth wleidyddol angenrheidiol, yr arweinyddiaeth a'r cyllid er mwyn gallu gweithredu'n genedlaethol ac yn lleol.

**70.** Ym mis Medi 2018, fe wnaeth y Pwyllgor ymgymryd â gwaith dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion yn adroddiad cyntaf y Pwyllgor, ac wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig 2018-19, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ar gyfer Cymru 2018-2023.

**71.** Eto, argymhellodd yr ail adroddiad hwn y dylai Llywodraeth Cymru "gyflwyno strategaeth uchelgeisiol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ar frys", a gwnaeth nifer o argymhellion ynghylch nodi a dynodi Parthau Cadwraeth Forol.

## Llywodraethu amgylcheddol

---

**72.** Yn dilyn canlyniad refferendwm yr UE, roedd pryder eang ar draws y sector amgylcheddol ynghylch bylchau mewn egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol yn deillio o ymadawiad y DU â'r UE.<sup>19</sup> Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal a gwella'r safonau amgylcheddol, a "manteisio ar y cyfle deddfwriaethol priodol cyntaf i gynnwys yr egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith a chau'r bwloch llywodraethu".<sup>20</sup>

**73.** Mae'r Pwyllgor wedi ceisio dylanwadu ar ddatblygiad trefniadau llywodraethu amgylcheddol o adeg gynnar. Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd adroddiad rhagarweiniol, sy'n cynnwys argymhellion lefel uchel. Galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:

---

<sup>19</sup>Mae'r UE yn datblygu polisiâu a chyfreithiau amgylcheddol ac yn gweithredu fel corff gwarchod i sicrhau bod Aelod-wladwriaethau'n cydymffurfio â hwy. Gall yr UE weithredu yn erbyn llywodraethau sy'n methu â chydymffurfio, a all arwain at gosbau ariannol sylweddol yn y pen draw. Ar ddiwedd Cyfnod Gweithredu Brexit, fe wnaeth trefniadau llywodraethu amgylcheddol beidio â bod yn gymwys yn y DU.

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 409, 21 Mawrth 2018

- cyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yr UE yn y gyfraith;
- egluro ei safbwynt ar sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd; ac
- archwilio'r potensial ar gyfer trefniadau llywodraethu dros dro pe na bai corff llywodraethu newydd yn cael ei sefydlu cyn i'r DU adael yr UE.

**74.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad (Awst 2018) esboniodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cynnal dadansoddiad llawn o'r bylchau llywodraethu yng Nghymru er mwyn llywio cynigion yn y dyfodol. Ymrwymodd i ymgynghori ar y cynigion hyn cyn cyflwyno Bil ar gyfer Cymru.

**75.** Flwyddyn yn ddiweddarach, a chyda chynigion wedi dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ail ymchwiliad i ailymweld â'r mater hwn. Yn ystod yr ymchwiliad hwnnw, cadarnhaodd y Prif Weinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddeddfu ar lywodraethu amgylcheddol. Fodd bynnag, nid oedd Bil ar gyfer Cymru ar lywodraethu amgylcheddol wedi cael ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaeth nesaf.<sup>21</sup> Yn sgil hyn, dywedodd rhanddeiliaid bod hyn yn golygu ein wynebu'r posibilid y bydd gan Gymru'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol gwaethaf o unrhyw wlad yng ngorllewin Ewrop.<sup>22</sup>

**76.** Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor ei ail adroddiad. Daeth i'r casgliad bod "achos cryf dros gorff llywodraethu newydd, pwrpasol i ddarparu system gadarn ac effeithiol o lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Brexit". Fodd bynnag, gyda chyhoeddiad y Prif Weinidog nad oes unrhyw gynlluniau penodol ar gyfer Bil Cymru, gallai fod yn flynyddoedd nes sefydlu corff o'r fath. Cododd y Pwyllgor bryder ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu dros dro i fynd i'r afael â'r bwloch llywodraethu ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

**77.** Ers ei adroddiad ym mis Hydref 2019, mae'r Pwyllgor wedi parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i sefydlu trefniadau llywodraethu interim cadarn. Mae hefyd wedi parhau i ofyn am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr amserlen ar gyfer Bil Cymru yn y dyfodol.

---

<sup>21</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 191-192, 16 Gorffennaf 2019

<sup>22</sup> Gohebiaeth gan Gyswilt Amgylchedd Cymru at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, dyddiedig 12 Hydref 2020



**78.** Ym mis Chwefror 2021, penododd Llywodraeth Cymru Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro ar gyfer Cymru ('Asesydd Dros Dro') i ystyried pryderon a godwyd ynghylch sut mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu. Ni fydd yr Asesydd Dros Dro yn ystyried cwynion am achosion unigol o dorri'r gyfraith honno, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Mae'r sector amgylcheddol wedi codi pryderon bod hwn yn gam mawr yn ôl ac wedi galw am Fil ar gyfer Cymru i sefydlu corff llywodraethu sy'n gweithredu'n llawn fel mater o flaenoriaeth.

**79.** Bydd craffu ar unrhyw Fil llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru yn fater i'n Pwyllgor olynol. Dylai'r casgliadau a'r argymhellion yn ein hadroddiadau yn ystod y Bumed Senedd fod yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer y gwaith hwnnw. Yn y cyfamser, efallai y bydd ein Pwyllgor olynol yn dymuno ystyried effeithiolrwydd rôl yr Asesydd Dros Dro, a materion sy'n codi o'i waith.

### Bioamrywiaeth ac adferiad gwyrdd

---

**80.** Mae'r Pwyllgor wedi trafod y cyfleoedd ar gyfer "adferiad gwyrdd" yn dilyn y pandemig Covid-19. Ym mis Ionawr 2021, clywodd y Pwyllgor gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd, a oedd wedi'i orchymyn gan y Gweinidog i nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu o ran cynllun adferiad yn sgil Covid-19 Llywodraeth Cymru, gan gwmpasu gweithredu o ran yr hinsawdd, o ran twf economaidd cynhwysol a theg, ac o ran creu swyddi. Cyhoeddodd y Grŵp ei adroddiad 'Adferiad Gwyrdd: Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu' ar 3 Rhagfyr ochr yn ochr ag adroddiad annibynnol a oedd yn edrych ar sefydlogrwydd a gwytnwch sector yr amgylchedd yng Nghymru. Gwnaeth yr adroddiad annibynnol nifer o argymhellion, gan gynnwys y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fod mewn sefyllfa well o ran adnoddau i gymryd rôl fwy gweithredol wrth gefnogi'r sector cyrff amgylcheddol anllywodraethol.

**81.** Mae'r Pwyllgor wedi codi'r mater o dargedau bioamrywiaeth gyda'r Gweinidog sawl gwaith. Dywedodd y Gweinidog ei bod o blaid cyflwyno targedau ar gyfer adfer bioamrywiaeth o ran egwyddor.

### Polisiâu llygredd plastig

---

**82.** Mae llygredd plastig yn fygythiad difrifol i'n planed ac mae'r cyhoedd yn disgwyl i lywodraethau gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r broblem hon.

**83.** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu cynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Dychwelyd Ernes. Ymgynghorwyd ar hyn ym mis Chwefror 2019. Mae **Bil Amgylchedd y DU** yn cynnwys pwerau i gyflwyno rheoliadau ar gyfer y



cynlluniau hyn. Disgwylir cynigion manylach ar ddyluniad y cynlluniau yn fuan. Rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf yn [ei hymateb](#) i adroddiad y Pwyllgor hwn ar gyllideb ddrafft 2021-22. Serch hynny, mae cynnydd Llywodraeth Cymru wedi bod yn siomedig yn y maes polisi hwn.

**84.** Yn ei adroddiad ar lygredd plastig a gwastraff deunydd pecynnu (Mehfin 2019), argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth deng mlynedd gynhwysfawr ac uchelgeisiol gyda'r nod o leihau llygredd plastig. Dylid datblygu'r strategaeth hon gyda'r rhanddeiliaid a dylai gynnwys targedau a cherrig milltir. Rhaid iddi wneud cysylltiadau clir â meysydd polisi eraill, fel rheoli gwastraff a chaffael "gwyrdd".

**85.** Hefyd, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru i leihau llygredd plastig, yn seiliedig ar y model ar gyfer lleihau allyriadau yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai'r ddeddfwriaeth gynnwys targed cyffredinol ar gyfer dileu llygredd plastig a cherrig milltir dros dro.

## Materion ar gyfer y Chweched Senedd

**Casgliad 23.** Credwn y dylai ein Pwyllgor olynol barhau i adolygu cyfraddau plannu coed, o ystyried y diffyg cynnydd difrifol yn ystod tymor y Senedd hon. Er bod polisi'r Goedwig Genedlaethol yn gysyniad diddorol, prin fu'r cynnydd amlwg yn y maes hwn yn ystod tymor y Senedd hon.

**Casgliad 24.** Bydd ein Pwyllgor olynol, heb os, yn dymuno cadw llygad barcud ar ddatblygiad y cynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Dychwelyd Ernes yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon uchelgeisiol.

**Casgliad 25.** Efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol ystyried effeithiolrwydd rôl yr Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro ar gyfer Cymru, a materion sy'n codi o waith yr Asesydd. Hefyd, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried hyd a lled rôl y Senedd o ran trefniadau llywodraethu amgylcheddol dros dro ac yn y tymor hwy yng Nghymru.

**Casgliad 26.** Mae'r Pwyllgor hwn yn credu'n gryf y dylai Llywodraeth nesaf Cymru gyflwyno targedau i atal dirywiad bioamrywiaeth a'i hadfer. Rydym o'r farn y dylai ein Pwyllgor olynol sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r mater hwn yn ystod blwyddyn gyntaf tymor nesaf y Senedd.

**Casgliad 27.** Dylai ein Pwyllgor olynol barhau i adolygu cynnydd Llywodraeth nesaf Cymru o ran cyflawni "adferiad gwyrdd" a gweithredu argymhellion Grŵp

Gorchwyl a Gorffen yr Adferiad Gwyrdd. Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei dull ar gyfer yr adferiad gwyrdd yn parhau i ganolbwyntio ar adfer natur.

## 7. Iechyd a Lles anifeiliaid

Roedd hon yn thema allweddol arall yng ngwaith y Pwyllgor. Roedd yr unig waith craffu a wnaed gan y Pwyllgor ar Fil ar gyfer Cymru yn ystod tymor y Senedd hon yn y maes polisi hwn.

### Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth

- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Pedolwyr (Cofrestru) (Mawrth 2017)
- Ymchwiliad i'r Rhaglen o'r newydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Dileu TB (Mai 2017)
- Ymchwiliad i ddefnyddio maglau yng Nghymru (Mehefin 2017)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu) (Chwefror 2019)
- Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) (Rhagfyr 2019)
- Sesiynau craffu ar iechyd anifeiliaid ac atal afiechydon (Ionawr 2021)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) (Mawrth 2021)

### Rhaglen Llywodraeth Cymru i ddileu TB

---

**86.** Mae TB Buchol yn parhau yng Nghymru, ac mae'r Pwyllgor wedi trafod y mater yn rheolaidd trwy gydol tymor y Senedd hon.

**87.** Yn ei adroddiad cychwynnol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru bennu dyddiad targed cenedlaethol i Gymru fod yn swyddogol glir o TB ac egluro'r broses ar gyfer cyflawni hyn. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru osod targedau dros dro ar gyfer dileu'r clefyd ym mhob un o'r tri rhanbarth TB.

**88.** Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar y mater ym mis Ionawr 2021. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai nod targedau Llywodraeth Cymru yw y bydd Cymru'n wlad sy'n swyddogol heb TB erbyn 2041. "Mae targedau interim,

sy'n cwmpasu cyfnodau o 6 mlynedd, wedi'u pennu ar gyfer pob un o'r Ardaloedd TB".<sup>23</sup>

**89.** Diwedd y cyfnod chwe blynedd cyntaf yw diwedd 2023. Efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol ystyried y cynnydd yn erbyn y targed interim cyntaf.

### Defnyddio maglau yng Nghymru

---

**90.** Ar 25 Medi 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cod ar yr arfer orau ar wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoaid'. Mae'n god statudol a gyhoeddir o dan Adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ac mae'n crynhoi'r rhwymedigaethau cyfreithiol cyfredol ar y rheini sy'n defnyddio maglau ac yn amlinellu'r canllawiau y dylid eu dilyn. Trafododd y Pwyllgor sawl agwedd ar y Cod, gan gynnwys ei dderbyn, ei gydymffurfio a'i fonitro, ers ei gyflwyno.

**91.** Prif argymhelliad y Pwyllgor oedd y dylid monitro a pharhau i adolygu'r broses o weithredu'r Cod ac y dylid cyflwyno proses adolygu ffurfiol. Dylai'r broses adolygu honno gael ei chynnal bob blwyddyn o hyn ymlaen a dylid cyhoeddi adroddiad o'r adolygiad, gan gynnwys ei chanlyniadau. Ymhellach, argymhelliad y Pwyllgor oedd, pe bai'r adolygiad yn dangos nad oedd y modd y caiff y Cod ei weithredu yn effeithiol, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i reoleiddio neu wahardd gwerthu a defnyddio maglau yng Nghymru.<sup>24</sup>

**92.** Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar y Cod Ymarfer mewn perthynas â maglau ym mis Ionawr 2021. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Papur Gwyn Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, yn cynnwys cynigion i gynnwys pwerau i wneud gorchmynion yn ymwneud â gwerthu a defnyddio maglau trwy gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn ystod chweched tymor y Senedd. Dywedodd y Gweinidog bod sut y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu defnyddio'r pŵer hwn yn cael ei bennu trwy gynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid. Dylai ein Pwyllgor olynol drafod y materion hyn ar yr adeg briodol.<sup>25</sup>

---

<sup>23</sup> Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 29 Ionawr 2021

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Adroddiad ar ddefnyddio maglau yng Nghymru, Mehefin 2017

<sup>25</sup> Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dyddiedig 29 Ionawr 2021

---

## Materion ar gyfer y Chweched Senedd

**Casgliad 28.** Bydd ein Pwyllgor olynol am barhau i adolygu'r sefyllfa TB Buchol yng Nghymru. Yn benodol, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried y cynnydd yn erbyn y targed interim cyntaf ar gyfer TB, sydd i'w ddisgwyl ar ddiwedd 2023.

**Casgliad 29.** Efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol ystyried canlyniad adolygiad diweddaraf y Cod Ymarfer mewn perthynas â defnyddio maglau. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor drafod a yw'r darpariaethau yn ymwneud â defnyddio a gwerthu maglau yn y Bil Amaethyddiaeth sydd ar ddod yn briodol ac yn gymesur.

**Casgliad 30.** Ar ddiwedd y Bumed Senedd, ymgwymerodd y Pwyllgor â darn byr o waith i archwilio materion allweddol yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid ac atal clefydau, gan gynnwys ymwrthedd gwrthficrobaidd. Efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol barhau i adolygu'r materion hyn ac ymgymryd â darn mwy sylweddol o waith yn y maes polisi hwn maes o law.

## 8. Cynllunio

- Ymchwiliad i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft (Rhagfyr 2019)
- Adroddiad ar “Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040” (Tachwedd 2020)

### Ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth

#### Y broses o graffu ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019

---

**93.** Craffodd y Pwyllgor ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019 yn ystod misoedd olaf 2019. Roedd adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn cynnwys 50 o gasgliadau mewn sawl maes polisi. Derbyniodd Llywodraeth Cymru safbwyntiau'r Pwyllgor yn gyffredinol. Cafodd 22 o'r argymhellion eu derbyn yn llawn, a chafodd 25 eu derbyn “mewn egwyddor”. O ganlyniad i waith y Pwyllgor, rhoddwyd sylw i fylchau yng nghwmpas y polisi, gwnaed gwelliannau i'r diagramau strategol cenedlaethol a rhanbarthol, ychwanegwyd rhagor o fapiau a diagramau i ddangos y materion polisi allweddol, a chafodd cyflwyniad graffig y ddogfen ei wella.

#### Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040

---

**94.** Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys 26 o argymhellion pellach. Cafodd pob un ond dau o'r argymhellion hyn eu derbyn yn llawn gan Lywodraeth Cymru. Yr her drosfwaol y mae Llywodraeth Cymru yn ei hwynebu yw sicrhau bod y fframwaith cynllunio 40 mlynedd hwn yn ddigon gwydn i allu ymateb i'r tair her fwyaf sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd – Covid-19, Brexit, ac effeithiau newid hinsawdd.

**95.** Roedd un o'n prif bryderon yn ymwneud â Chynlluniau Datblygu Strategol Cymru'r Dyfodol fydd y cynllun strategol lefel uchaf, gan ddarparu fframwaith cynllunio cenedlaethol. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn ffitio rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol. Y mecanwaith a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer datblygu Cynlluniau Datblygu Strategol yw sefydlu “cyd-bwyllgor corfforedig” sy'n cynnwys cynrychiolwyr mwy nag un awdurdod lleol. Dylai datblygiad Cynlluniau Datblygu Strategol symud ymlaen yn gyflym, ac rydym mewn egwyddor yn cefnogi mwy o gydweithrediad rhwng awdurdodau lleol er mwyn cyflawni hyn. Fodd bynnag, rhaid i hyn beidio ag arwain at ostyngiad anfwriadol o ran atebolrwydd i gymunedau lleol.

## Materion ar gyfer y Chweched Senedd

**Casgliad 31.** Mae Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ddarn arwyddocaol o ddeddfwriaeth yng Nghymru. Mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer materion gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Strategol, Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, a pholisi cynllunio ar y Gymraeg. Byddai'n amserol i'n Pwyllgor olynol gynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Ddeddf.

**Casgliad 32.** Efallai yr hoffai ein Pwyllgor olynol barhau i adolygu'r modd y gweithredir y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf, ac efallai yr hoffai drafod ail iteriad y Fframwaith maes o law.

## 9. Gwaith arall

### Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

---

**96.** Ar 10 Ionawr 2019, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Comisiynydd. Wedi hynny, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiynydd ynghylch nifer o faterion a godwyd yn ystod y sesiwn.

**97.** Mae gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i heffaith wedi bod o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor yn ystod tymor y Senedd hon. Mae'r ffordd y mae'r nodau llesiant yn cael eu hymgorffori yng ngwaith blaenoriaethu cyllideb Llywodraeth Cymru wedi bod yn faes rydym wedi canolbwyntio arno. Mae hyn wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ond rydym yn dal i gredu bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y nodau'n cael eu hymgorffori mewn ffyrdd o weithio a bod y canlyniadau yn amlwg.

### Cyfoeth Naturiol Cymru

---

**98.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau craffu rheolaidd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn ystod tymor y Senedd hon. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder dro ar ôl tro yn ystod gwaith craffu ar gyllidebau drafft bod gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru gyflawni mwy heb gynnydd cymesur o ran cyllid. Yn wir, bu tuedd tuag at ostyngiad yn lefel y cyllid.

**99.** Am y tro cyntaf yn y blynyddoedd diweddar, ni ostyngodd cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2020-21, ond bydd ganddo gyllideb "llinell wastad". Unwaith eto, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gyfoeth Naturiol Cymru gyflawni mwy, ar ffurf polisi'r goedwig genedlaethol newydd, a gwaith i adfer mawndiroedd a rhai safleoedd Natura 2000. Mae CNC wedi dweud wrth y Pwyllgor droeon fod cyllideb sy'n lleihau yn effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau ac ymgymryd â dyletswyddau newydd.

### Penodiadau cyhoeddus

---

**100.** Ar 26 Medi 2019, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cyn penodi gyda Syr David Henshaw, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swydd Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Materion ar gyfer y Chweched Senedd

**Casgliad 33.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y gostyngiad parhaus yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi mwy



o ddyletswyddau iddo. Mae'r Gweinidog ei hun wedi derbyn nad yw hyn yn gynaliadwy. Credwn y dylai ein Pwyllgor olynol graffu ar berfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn flynyddol ac y dylai barhau i adolygu ei gyllid.